

HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 23 Mehefin 2025
Tabled on 23 June 2025

Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) Visitor Accommodation (Register and Levy) Etc. (Wales) Bill

Sam Rowlands

67

Section 1, page 1, leave out lines 20 to 21.

Adran 1, tudalen 1, hepgorer llinellau 22 hyd at 23.

Sam Rowlands

68

Page 15, after line 16, insert a new section –

[] Report on operation of this Part

- (1) The Welsh Ministers must, as soon as reasonably practicable after the end of the reporting period –
 - (a) review the operation of this Part, and
 - (b) prepare a report on that review.
- (2) The report must, in particular, set out an assessment of –
 - (a) the data that has been collected in the register, and
 - (b) the combined impact of taxation and other policies on the tourism industry in Wales during the reporting period.
- (3) The Welsh Ministers must, as soon as reasonably practicable after preparing the report –
 - (a) publish the report, and
 - (b) lay the report before Senedd Cymru.
- (4) In this section, “reporting period” is the period of 3 years beginning with the day on which this Part comes into force.’.

Tudalen 15, ar ôl llinell 19, mewnosoder adran newydd –

[] Adrodd ar weithrediad y Rhan hon

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod adrodd –
 - (a) adolygu gweithrediad y Rhan hon, a
 - (b) llunio adroddiad ar yr adolygiad hwnnw.
- (2) Rhaid i'r adroddiad, yn benodol, nodi asesiad –
 - (a) o'r data a gasglwyd yn y gofrestr, a
 - (b) o effaith gyfunol trethiant a pholisïau eraill ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl llunio'r adroddiad –
 - (a) cyhoeddi'r adroddiad, a
 - (b) gosod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru.
- (4) Yn yr adran hon, "y cyfnod adrodd" yw'r cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r Rhan hon i rym.'.

Sam Rowlands

69

Section 27, page 15, after line 30, insert –

- '() The levy in subsection (1) may be introduced in respect of either or both of –
- (a) the higher rate of the levy;
 - (b) the lower rate of the levy,
- (see section 31).'

Adran 27, tudalen 15, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- '() Caniateir cyflwyno'r ardoll yn is-adran (1) mewn cysylltiad â'r naill neu'r llall o'r cyfraddau a ganlyn, neu'r ddwy –
- (a) cyfradd uwch yr ardoll;
 - (b) cyfradd is yr ardoll,
- (gweler adran 31).'

Sam Rowlands

70

Section 28, page 16, after line 35, insert –

- '(vi) is provided for the purpose of an educational trip.'

Adran 28, tudalen 16, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- '(vi) wedi ei ddarparu at ddiben taith addysgol.'

Sam Rowlands

71

Section 28, page 16, after line 35, insert –

- ‘(vi) the person residing in or at the visitor accommodation under the contract is, at the time of the stay, aged under 18 and a carer within the meaning of section 3 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4).’

Adran 28, tudalen 16, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- ‘(vi) os yw’r person sy’n preswyllo yn y llety ymwelwyr o dan y contract, ar adeg yr arhosiad, o dan 18 oed ac yn ofalwr o fewn ystyr adran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).’

Sam Rowlands

72

Section 28, page 16, after line 35, insert –

- ‘(vi) the person residing in or at the visitor accommodation under the contract is a member or former member of the armed forces.’

Adran 28, tudalen 16, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- ‘(vi) os yw’r person sy’n preswyllo yn y llety ymwelwyr o dan y contract yn aelod, neu’n gyn-aelod, o’r lluoedd arfog.’

Sam Rowlands

73

Section 28, page 16, after line 35, insert –

- ‘(vi) the person residing in or at the visitor accommodation has stayed overnight at visitor accommodation in Wales for more than 14 nights in the same calendar year (regardless of whether or not those nights are consecutive).’

Adran 28, tudalen 16, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- ‘(vi) os yw’r person sy’n preswyllo yn y llety ymwelwyr wedi aros dros nos mewn llety ymwelwyr yng Nghymru am fwy na 14 o nosweithiau yn yr un flwyddyn galendr (ni waeth a yw’r nosweithiau hynny yn olynol ai peidio).’

Sam Rowlands

74

Section 28, page 16, after line 35, insert –

- ‘(vi) is arranged by or provided on behalf of a charity (as defined in section 1(1) of the Charities Act 2011 (c.25)).’

Adran 28, tudalen 16, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- ‘(vi) wedi ei drefnu gan, neu wedi ei ddarparu ar ran, elusen (fel y diffinnir “charity” yn adran 1(1) o Ddeddf Elusennau 2011 (p. 25)).’

Sam Rowlands

75

Section 28, page 16, after line 38, insert –

‘() In this section, “armed forces” means –

- (a) the regular forces; or
- (b) the reserve forces, as defined in section 374 of the Armed Forces Act 2006 (c.52).’.

Adran 28, tudalen 16, ar ôl llinell 39, mewnosoder –

‘() Yn yr adran hon, ystyr “y lluoedd arfog” yw –

- (a) y lluoedd cyffredin, neu
- (b) y lluoedd wrth gefn, fel y’u diffinnir yn adran 374 o Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006 (p. 52).’.

Sam Rowlands

76

Section 30, page 18, line 1, leave out ‘Where the lower rate of the levy applies in relation to the accommodation,’.

Adran 30, tudalen 18, llinell 1, hepgorer ‘Pan fo cyfradd is yr ardoll yn gymwys mewn perthynas â’r llety,’.

Sam Rowlands

77

Section 30, page 18, line 5, leave out subsection (5).

Adran 30, tudalen 18, llinell 4, hepgorer is-adran (5).

Sam Rowlands

78

Section 30, page 18, leave out lines 17 to 22.

Adran 30, tudalen 18, llinell 17, hepgorer ‘a chaiff rheoliadau o dan yr is-adran hon wneud darpariaeth sy’n gymwys mewn perthynas â’r naill neu’r llall o’r canlynol, neu’r ddau –

- (a) arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr y mae cyfradd is yr ardoll yn gymwys mewn perthynas â hwy;
- (b) arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr y mae cyfradd uwch yr ardoll yn gymwys mewn perthynas â hwy.’.

Sam Rowlands

79

Section 31, page 18, line 25, leave out ‘rates of the levy are as follows –

- (a) the lower rate is £0.75,
- (b) the higher rate is £1.30,’ and insert ‘rate of the levy is 1 per cent (“the standard rate”),’.

Adran 31, tudalen 18, llinell 25, hepgorer 'Mae cyfraddau'r ardoll fel a ganlyn –

- (a) y gyfradd is yw £0.75,
- (b) y gyfradd uwch yw £1.30,' a mewnosoder 'Cyfradd yr ardoll yw 1 y cant ("y gyfradd safonol"),'.

Sam Rowlands

80

Section 31, page 18, line 26, leave out '£0.75' and insert '£0.01'.

Adran 31, tudalen 18, llinell 26, hepgorer '£0.75' a mewnosoder '£0.01'.

Sam Rowlands

81

Section 31, page 18, line 27, leave out '£1.30' and insert '£0.01'.

Adran 31, tudalen 18, llinell 27, hepgorer '£1.30' a mewnosoder '£0.01'.

Sam Rowlands

82

Section 31, page 18, leave out lines 28 to 29.

Adran 31, tudalen 18, hepgorer llinellau 28 hyd at 29.

Sam Rowlands

83

Section 31, page 18, line 30, leave out '(1)(a) or (b) to set the amount of either or both of –

- (a) the lower rate of the levy;
- (b) the higher' and insert '(1)([*paragraph to be inserted by amendment 79*]) to set the'.

Adran 31, tudalen 18, llinell 30, hepgorer '(1)(a) neu (b) i osod swm y naill neu'r llall o'r cyfraddau a ganlyn, neu'r ddwy –

- (a) cyfradd is yr ardoll;
- (b) cyfradd uwch' a mewnosoder '(1)([*paragraff i'w fewnosod gan welliant 79*]) i osod cyfradd'.

Sam Rowlands

84

Page 18, line 35, leave out section 32.

Tudalen 18, llinell 35, hepgorer adran 32.

Sam Rowlands

85

Section 32, page 18, after line 37, insert –

- '() a pitch or area provided for a mobile home that is not permanently or semi-permanently situated in one place, or'.

Adran 32, tudalen 18, ar ôl llinell 37, mewnosoder –

- ‘() yn llain neu’n ardal a ddarperir ar gyfer cartref symudol nad yw wedi ei leoli'n barhaol neu'n lled-barhaol mewn un lle, neu’.

Sam Rowlands

86

Page 19, line 9, leave out section 33.

Tudalen 19, llinell 8, hepgorer adran 33.

Sam Rowlands

87

Section 33, page 19, line 10, leave out ‘either or both of –

- (a) the lower rate of the levy payable in the council’s area;
- (b) the higher rate of the levy payable in the council’s area.

- (2) An amount specified under subsection (1) may be expressed as a percentage of the levy rate in question’ and insert ‘the levy rate.

- (2) An amount specified under subsection (1) may be expressed as a percentage of the rate’.

Adran 33, tudalen 19, llinell 9, hepgorer ‘y naill neu’r llall o’r cyfraddau a ganlyn, neu at y ddwy –

- (a) cyfradd is yr ardoll sy’n daladwy yn ardal y cyngor;
- (b) cyfradd uwch yr ardoll sy’n daladwy yn ardal y cyngor.

- (2) Caniateir i swm a bennir o dan is-adran (1) gael ei fynegi fel canran o gyfradd yr ardoll o dan sylw’ a mewnosoder ‘gyfradd yr ardoll.

- (2) Caniateir i swm a bennir o dan is-adran (1) gael ei fynegi fel canran o gyfradd yr ardoll’.

Sam Rowlands

88

Section 33, page 19, after line 27, insert –

- ‘(d) amending subsection ([*subsection to be inserted by amendment 118*]) by changing the maximum amounts which may be added to a levy rate by a principal council.’.

Adran 33, tudalen 19, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

- ‘(d) sy’n diwygio is-adran ([*is-adran i’w mewnosod gan welliant 118*]) drwy newid yr uchafsymiau y caniateir eu hychwanegu at gyfradd ardoll gan brif gyngor.’.

Sam Rowlands

89

Section 35, page 22, line 32, leave out ‘30’ and insert ‘90’.

Adran 35, tudalen 22, llinell 32, hepgorer ‘30’ a mewnosoder ‘90’.

Sam Rowlands

90

Page 24, after line 12, insert a new section –

‘Duty to provide information on the levy

[] Duty to provide information on the levy

A visitor accommodation provider that provides accommodation at premises in an area where a principal council has introduced the levy must include information about the amount of levy payable on an overnight stay in that accommodation in an invoice, receipt or other document provided in connection with that stay.’.

Tudalen 24, ar ôl llinell 14, mewnosoder adran newydd –

‘Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth am yr ardoll

[] Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth am yr ardoll

Rhaid i ddarparwr llety ymwelwyr sy’n darparu llety mewn mangre mewn ardal lle y mae prif gyngor wedi cyflwyno’r ardoll gynnwys gwybodaeth ynghylch swm yr ardoll sy’n daladwy ar arhosiad dros nos yn y llety hwnnw mewn anfoneb, derbynneb neu ddogfen arall a ddarperir mewn cysylltiad â’r arhosiad hwnnw.’.

Sam Rowlands

91

Section 44, page 26, leave out lines 11 to 17.

Adran 44, tudalen 26, hepgorer llinellau 13 hyd at 19.

Sam Rowlands

92

Section 45, page 27, line 10, leave out ‘, changing’.

Adran 45, tudalen 27, llinell 11, hepgorer ‘, newid’.

Sam Rowlands

93

Section 45, page 27, line 11, leave out subsections (2) to (3).

Adran 45, tudalen 27, llinell 12, hepgorer is-adrannau (2) hyd at (3).

Sam Rowlands

94

Section 45, page 27, line 21, leave out ‘, change’.

Adran 45, tudalen 27, llinell 22, hepgorer ‘, newid’.

Sam Rowlands

95

Section 45, page 27, leave out lines 25 to 29.

Adran 45, tudalen 27, hepgorer llinellau 26 hyd at 30.

Sam Rowlands

96

Section 45, page 28, line 24, leave out 'change or'.

Adran 45, tudalen 28, llinell 24, hepgorer 'newid yr ardoll neu ei ddiddymu' a mewnosoder 'diddymu'r ardoll'.

Sam Rowlands

97

Section 46, page 29, line 15, leave out ', abolish or change' and insert 'or abolish'.

Adran 46, tudalen 29, llinell 15, hepgorer ', diddymu neu newid yr' a mewnosoder 'neu ddiddymu'r'.

Sam Rowlands

98

Section 46, page 29, leave out line 22.

Adran 46, tudalen 29, hepgorer llinell 22.

Sam Rowlands

99

Section 46, page 29, line 32, leave out subsection (4).

Adran 46, tudalen 29, llinell 32, hepgorer is-adran (4).

Sam Rowlands

100

Section 46, page 29, line 37, leave out ', or the change to,'.

Adran 46, tudalen 29, llinell 37, hepgorer ', diddymu neu newid yr' a mewnosoder 'neu ddiddymu'r'.

Sam Rowlands

101

Section 47, page 30, line 16, leave out subsections (4) to (5).

Adran 47, tudalen 30, llinell 17, hepgorer is-adrannau (4) hyd at (5).

Sam Rowlands

102

Section 47, page 30, line 26, leave out ', change'.

Adran 47, tudalen 30, llinell 27, hepgorer ', newid'.

Sam Rowlands

103

Section 48, page 30, leave out line 33.

Adran 48, tudalen 30, hepgorer llinell 34.

Sam Rowlands

104

Page 36, line 22, leave out section 60.

Tudalen 36, llinell 24, hepgorer adran 60.

Sam Rowlands

105

Page 36, after line 25, insert a new section –

[] Review of operation and effect of this Act

(1) The Welsh Ministers must –

(a) review the operation and effect of this Act, and

(b) publish the conclusions of the review before the end of the period of 4 years beginning with the day on which Part 2 of this Act comes into force.

(2) In undertaking a review under this section, the Welsh Ministers must consult Senedd Cymru and other such persons as they consider appropriate.’.

Tudalen 36, ar ôl llinell 27, mewnosoder adran newydd –

[] Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf hon

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru –

(a) adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf hon, a

(b) cyhoeddi casgliadau’r adolygiad cyn diwedd y cyfnod o 4 blynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y daw Rhan 2 o’r Ddeddf hon i rym.

(2) Wrth gynnal adolygiad o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Senedd Cymru ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.’.

Sam Rowlands

106

Section 62, page 37, line 4, leave out ‘or different areas’.

Adran 62, tudalen 37, llinell 4, hepgorer ‘neu ar gyfer ardaloedd gwahanol’.

Sam Rowlands

107

Section 62, page 37, leave out line 19.

Adran 62, tudalen 37, hepgorer llinell 23.

Sam Rowlands

108

Section 62, page 37, leave out line 27.

Adran 62, tudalen 37, hepgorer llinell 31.

Sam Rowlands

109

Section 62, page 37, after line 29, insert –

- ‘(s) an order made under section 64(*[first subsection to be inserted by amendment 112]*).
- () A draft of the statutory instrument containing an order under section 64(*[first subsection to be inserted by amendment 112]*) –
 - (a) may not be laid before Senedd Cymru before the report mentioned in section *[section to be inserted by amendment 68]* has been laid before Senedd Cymru in accordance with the requirements of that section, and
 - (b) may not be approved by a resolution of Senedd Cymru until after the expiry of the period of 90 days beginning with the day on which the draft order is laid.
- () In calculating the period mentioned in subsection *[(first subsection to be inserted by this amendment)]*, no account is to be taken of any time during which Senedd Cymru is –
 - (a) dissolved, or
 - (b) in recess for more than 4 days.’.

Adran 62, tudalen 37, ar ôl llinell 34, mewnosoder –

- ‘(s) gorchymyn a wneir o dan adran 64(*[is-adran gyntaf i’w mewnosod gan welliant 112]*).
- () O ran drafft o’r offeryn statudol sy’n cynnwys gorchymyn o dan adran 64(*[is-adran gyntaf i’w mewnosod gan welliant 112]*) –
 - (a) ni chaniateir ei osod gerbron Senedd Cymru cyn i’r adroddiad a grybwyllir yn adran *[adran i’w mewnosod gan welliant 68]* gael ei osod gerbron Senedd Cymru yn unol â gofynion yr adran honno, a
 - (b) ni chaniateir ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru tan ar ôl i’r cyfnod o 90 o ddiwrnodau sy’n dechrau â’r diwrnod y gosodir y gorchymyn drafft ddod i ben.
- () Wrth gyfrifo’r cyfnod a grybwyllir yn is-adran *[is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn]*, rhaid diystyru unrhyw adeg pan fo Senedd Cymru –
 - (a) wedi ei diddymu, neu
 - (b) mewn toriad am fwy na 4 diwrnod.’.

Sam Rowlands

110

Section 64, page 38, line 32, leave out ‘Parts 1 and 3 (including Part 2 of Schedule 2)’ and insert ‘Part 1’.

Adran 64, tudalen 38, llinell 35, hepgorer ‘Rhannau 1 a 3 (gan gynnwys Rhan 2 o Atodlen 2)’ a mewnosoder ‘Rhan 1’.

Sam Rowlands

111

Section 64, page 39, line 4, leave out ‘areas (as well as for different purposes)’ and insert ‘purposes (but not for different areas)’.

Adran 64, tudalen 39, llinell 5, hepgorer ‘ar gyfer ardaloedd gwahanol (yn ogystal ag at ddibenion gwahanol)’ a mewnosoder ‘at ddibenion gwahanol (ond nid ar gyfer ardaloedd gwahanol)’.

Sam Rowlands

112

Section 64, page 39, after line 4, insert –

- ‘(4) Part 3 (including Part 2 of Schedule 2) comes into force on a day appointed by the Welsh Ministers in an order made by statutory instrument.
- (5) But an order made under subsection (*[first subsection to be inserted by this amendment]*) may not commence any provision of Part 3 before the end of the period of three years beginning with the day on which Part 2 of this Act comes into force.’.

Adran 64, tudalen 39, ar ôl llinell 6, mewnosoder –

- ‘(4) Daw Rhan 3 (gan gynnwys Rhan 2 o Atodlen 2) i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.
- (5) Ond ni chaiff gorchymyn a wneir o dan is-adran (*[is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn]*) gychwyn unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 3 cyn diwedd y cyfnod o 3 blynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y daw Rhan 2 o’r Ddeddf hon i rym.’.

